Gwasanaethau Cyllid, Cynllun Gwasanaeth 2018-22 (2020/21)

Cynnwys

Cyflwyniad a Chefndir	Tudalen 1
Cyllid	Tudalen 3
Rhaglenni a Phrosiectau Mawr 2020/21	Tudalen 3
Amcanion / Camau Gweithredu Cynllun Gwasanaeth 2019/20	Tudalen 5
Mesurau Perfformiad	Tudalen 20
Cofrestr Risg y Gwasanaeth	Tudalen 21

Cyflwyniad a Chefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff sector cyhoeddus bennu amcanion Llesiant yn eu Cynlluniau Corfforaethol. Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd 2017-22 wedi pennu pedwar amcan Llesiant sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni Nodau Llesiant Cymru:

1. Gwella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth;
2. Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd;
3. Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol a gwydn, ac
4. Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy.

Nodau Adfer Strategol Casnewydd

Ar ddechrau 2020, wynebodd Cymru bandemig Covid 19 sydd wedi effeithio ar y modd y mae Cyngor Casnewydd a'r Gwasanaeth Cyllid yn benodol yma yn darparu ei wasanaethau i gymunedau. Ymateb cychwynnol y Cyngor oedd diogelu gwasanaethau rheng flaen, cefnogi'r rhai sy'n agored i niwed yn y gymuned a sicrhau parhad gwasanaethau. Ar lwybr adferiad y Cyngor ac wrth adfer gwasanaethau, mae Cyngor Casnewydd wedi sefydlu Nodau Adfer Strategol a fydd yn galluogi'r Cyngor i ddysgu o'r effeithiau a achoswyd gan Covid 19, yr heriau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n wynebu gwasanaethau a'r cyfleoedd sydd wedi deillio o ffyrdd newydd o weithio. Bydd y Nodau hyn yn cefnogi Cynllun Corfforaethol y Cyngor a bydd y Cynllun Gwasanaeth hwn yn helpu i gyflawni'r nodau hyn.

Mae pedwar tîm yn y gwasanaeth Cyllid: Cyfrifyddiaeth; Archwilio Mewnol; Caffael/e-daliadau; a Refeniw. Gyda'i gilydd, mae'r timau'n darparu cymysgedd amrywiol o wasanaethau a gweithgareddau sy'n cefnogi meysydd gwasanaeth y Cyngor; pennu fframweithiau polisi cyffredinol ar gyfer y Cyngor cyfan; a Refeniw, fel un o'r adrannau cwsmeriaid allanol mwyaf sy'n delio â phob aelwyd a busnes. Mae enghreifftiau o'r meysydd / swyddogaethau yn cynnwys:

- Pennu polisi, arfer da, hyfforddiant, cymorth a chydgysylltu er mwyn galluogi rheolaeth ariannol effeithiol a chynllunio strategol ar gyllideb refeniw net o tua £300M, gan gefnogi dros 200 o reolwyr cyllideb/rheolwyr gwasanaethau, Penaethiaid ac Aelodau;
- Cefnogi'r sefydliad i ddatblygu ei wasanaethau a chyflawni prosiectau allweddol gyda chyngor a chymorth ariannol yn ôl yr angen;
- Rhoi sicrwydd i'r Cyngor ac Ysgolion ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei drefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar ei adnoddau ariannol ac anariannol gan gynnwys, lle bo angen, ymchwilio i amhriodoldeb / lladrata;
- Casglu tua £120M o incwm o'r Dreth Gyngor, Ardrethi Busnes a dyledion amrywiol.
- Rheoli a chefnogi rhyngweithio'r Cyngor â'i gyflenwyr er mwyn sicrhau gwerth am arian drwy e-archebu, taliadau a gwasanaethau cymorth wrth dendro / dyfarnu / rheoli contractau.
- Cefnogi'r Pennaeth Cyllid i gyflawni ei gyfrifoldebau Adran 151 statudol.

Drwy'r Cynllun Corfforaethol a thu hwnt, bydd y Gwasanaethau Cyllid yn parhau i adeiladu ar gyflawni mwy o swyddogaethau 'hunan-wasanaeth' yn fewnol megis System Rheoli Cyllidebau'r Cyngor a Chaffael ac yn allanol drwy System Cysylltiadau Cwsmeriaid y Cyngor a *Fy Nghyfrif* sy'n galluogi preswylwyr a busnesau i wneud mwy o daliadau ar-lein. Wrth i'r Cyngor wynebu galwadau cynyddol ar ei wasanaethau gan ei breswylwyr a'i fusnesau, bydd angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau anos a bydd ein Partneriaid Busnes Cyllid yn cefnogi ac yn datblygu cynllunio, rheoli a llywodraethiant ariannol cryf ac integredig. Mae'r tîm Archwilio Mewnol eisoes yn cydweithio â Chyngor Sir Fynwy drwy rannu'r Prif Archwilydd Mewnol ac mae'n parhau i ddarparu gwasanaeth sicrwydd lefel uchel i'r Cyngor ar lywodraethiant ariannol ac anariannol, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Yn benodol yn ystod cyfnod Covid-19, mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar nifer o faterion allweddol:

- Cyflawni'r 'cynllun grantiau busnes' lle bydd pob cwmni cymwys sy'n gweithredu o leoliad busnes yn cael ei gefnogi drwy grant arian parod penodol. Amcan o'r gost tua £32m
- Cyflawni'r 'cynllun rhyddhad Ardreth Annomestig Genedlaethol' ar gyfer busnesau cymwys
- Delio â thalwyr y Dreth Gyngor ac Ardrethi Busnes yn ystod y cyfnod heriol a symud yn ôl at adennill ôl-ddyledion ac ati â chydymdeimlad maes o law
- Chwilio am dwyll wrth weinyddu'r gwahanol grantiau Covid-19
- Sicrhau bod cyflenwyr allweddol y Cyngor yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod heriol, yn enwedig y rhai lle mae gwasanaethau i'r Cyngor wedi'u hatal dros dro neu eu newid yn sylweddol. Sicrhau ein bod yn cyflymu ein prosesau taliadau er mwyn sicrhau y gallwn adhawlio cyn gynted â phosibl a bod cyflenwyr yn cael cymorth drwy hyn
- Sicrhau bod yr holl gostau a gefnogir gan grantiau sydd ynghlwm â'r pandemig yn cael eu nodi a'u hadhawlio a darparu rhagolygon a dadansoddiadau ariannol i gefnogi'r broses o adfer gwasanaethau a rheolaeth ariannol dda

Cyllid

Cytunwyd ar gyllideb y Cyngor ar gyfer 2020/21 yn y Cyngor ar 27 Chwefror 2020. Yn 2020/21 mae cyllideb refeniw sylfaenol y Gwasanaethau Cyllid wedi'i osod ar £3,434,000. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, y gyllideb a osodwyd ar gyfer y Gwasanaethau Cyllid oedd £3,267,000.

Rhaglenni a Phrosiectau Gwasanaethau Cyllid 2020-22

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-22, mae'r Gwasanaethau Cyllid yn cyflawni'r prosiectau canlynol:

Enw'r Rhaglen / Project	Disgrifiad Byr o'r Rhaglen / Project a sut mae'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.	Amcan(ion) Llesiant (Ll) y mae'n ei/u g/cefnogi	A yw'r project yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?	Thema(au) Corfforaethol	Dyddiad Dechrau'r Rhaglen / Project	Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Rhaglen / Project
Trafodion Digidol ar gyfer talwyr y Dreth Gyngor	Darparu'r modd i gwsmeriaid gynnal trafodion rheolaidd yn ddigidol. Galluogi dinasyddion i gael gafael ar eu cofnodion treth gyngor a chyflawni trafodion rheolaidd yn ddigidol a fydd yn gwella effeithlonrwydd, yn lleihau costau ac yn lleihau cyswllt diangen. Bydd hefyd yn caniatáu i'r Tîm Refeniw ganolbwyntio mwy ar adennill dyledion a pheidio gorfod delio â materion trafodol lefel isel.	Ddim yn berthnasol	Na	**Cyngor Modern**	1 Tachwedd 2019	31 Hydref 2020
Prosiect ôl-ddyledion y Dreth Gyngor a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.	Cynllun peilot yw hwn a defnyddir data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i alluogi'r Cyngor i wella'r broses o gasglu'r dreth gyngor a lleihau'n sylweddol yr achosion a anfonir i feilïaid bob blwyddyn. Byddwn yn nodi'r aelwydydd hynny sydd ag ôl-ddyledion Treth Gyngor a cheisio eu cyfeirio at gymorth arbenigol a fydd yn rhoi cyngor, arweiniad a mesurau i'w helpu i leihau eu hôl-ddyledion	**Amcan Lles 2** - Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio wrth amddiffyn yr amgylchedd. **Amcan Llesiant 3** - Galluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn **Amcan Llesiant 4** – Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy.	Nid yn uniongyrchol ond dylai helpu i adennill ôl-ddyledion Treth Gyngor sy'n ariannu'r Cyngor ac felly'n sail i bob cam gweithredu yn hynny o beth. Dylai hefyd ddarparu gwell	**Dinas Ffyniannus** **Cymunedau Cryf**	1 Hydref 2020	31 Mawrth 2022

Enw'r Rhaglen / Project	Disgrifiad Byr o'r Rhaglen / Project a sut mae'n cefnogi'r Cynllun Corfforaethol.	Amcan(ion) Llesiant (Ll) y mae'n ei/u g/cefnogi	A yw'r project yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?	Thema(au) Corfforaethol	Dyddiad Dechrau'r Rhaglen / Project	Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Rhaglen / Project
	treth gyngor a dyledion eraill yr aelwyd. Bydd hyn yn galluogi aelwydydd sy'n agored i niwed i reoli eu harian yn well a sicrhau cydnerthedd hirdymor a darparu cyfleoedd llesiant ac economaidd.		ffordd o adennill dyled a chynnig cymorth lle bo angen ac mae hyn yn berthnasol yn ystod y cyfnod adfer			
Uwchraddio i system ariannol newydd	Mae'r system ariannol bresennol ar lwyfan ansefydlog ac mae'n cynnwys nifer o wahanol systemau modiwlaidd sy'n bwydo i'r cyfriflyfr. Mae'n bwysig bod symudiad yn cael ei wneud i lwyfan mwy sefydlog, yn y Cwmwl os oes modd, a bod iddo system ariannol fwy integredig. Dylai hyn ganiatáu i gyflogeion gael mynediad haws i'r systemau o bell ac felly cefnogi'r Cyngor Modern a'r Nodau Adfer Strategol sy'n gysylltiedig â gweithlu mwy iach a chynhyrchiol.	Ddim yn berthnasol	**<u>Nod Adfer Strategol 3</u>** – Cynnal gweithlu diogel, iach a chynhyrchiol.	**Cyngor Modern**	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2022

Amcanion a Chamau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth 2020/21

Mae'r Gwasanaethau Cyllid wedi pennu 5 Amcan i'w cyflawni yn 2020/21:

Amcan 1 – Archwilio Mewnol i roi sicrwydd ynghylch digonolrwydd systemau Llywodraethiant, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac i leihau twyll a llygredd o fewn yr Awdurdod.

Amcan 2 – Bydd y tîm Casglu Incwm yn cynyddu'r opsiynau sydd ar gael i gwsmeriaid gynnal trafodion yn ddigidol.

Amcan 3 – Byddwn yn cefnogi'r sefydliad drwy ddatblygu arferion rheolaeth ariannol dda gan gynnwys: Amcanestyniadau ariannol tymor canolig cadarn i sicrhau bod blaenoriaethau allweddol yn cael cyllid a bod y sefydliad yn deall ei her ariannol. Byddwn yn cefnogi'r gwaith o sicrhau effeithlonrwydd a newid; a galluogi rheolwyr cyllideb i reoli'n gadarn drwy systemau, prosesau a phartneru busnes effeithiol.

Amcan 4 – Sicrhau bod cyfrifon yn cau'n gynt a man lleiaf, yn bodloni terfynau amser a gofynion statudol

Amcan 5 – Gweithredu a sefydlu'r model gweithredu diwygiedig ar gyfer caffael strategol. Ceisio gwelliannau yn y broses gylchol P2P lawn.

Amcan 6 (Newydd) – Ymgorffori egwyddorion Caffael Teg a Lleol a Chadwyni Cyflenwi Moesegol i'r Broses Porth Caffael.

Amcan 7 (Newydd) – Mewn cydweithrediad â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, nodi aelwydydd sy'n agored i niwed yn ariannol a'u cyfeirio at bartneriaid arbenigol i ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad ariannol.

Amcan 8 (Newydd) - Gweinyddu a Thalu Grantiau Ardrethi Busnes Covid-19 Cymwys

Amcan 9 (Newydd) - Gweithredu a Gweinyddu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2020-21

Amcan 10 (Newydd) - Sefydlu Protocolau Adfer Dyledion Ôl-Covid-19

Amcan 1		**Archwilio Mewnol i roi sicrwydd ynghylch digonolrwydd systemau Llywodraethiant, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac i leihau twyll a llygredd o fewn yr Awdurdod.**				
Canlyniad(au) Amcan		Mae Archwilio Mewnol yn ofyniad statudol o fewn llywodraeth leol yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014; bydd y tîm yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Bydd gwaith archwilio'n cael ei wneud i asesu digonolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fewnol, llywodraethiant a rheoli risg, er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol a bod twyll / camgymeriad yn cael ei leihau ym mhob gwasanaeth. Bydd hyn yn galluogi'r Prif Archwilydd Mewnol i roi barn gyffredinol flynyddol. Bydd y tîm Archwilio Mewnol yn effro i unrhyw weithgarwch twyllodrus posibl a bydd yn rhoi gwybod i'r Prif Archwilydd Mewnol am unrhyw bryderon a fydd yn asesu'r sefyllfa o ran risg a phenderfynu a ddylid ymchwilio ymhellach ai peidio. Bydd y tîm Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau'n gweithio'n dda ac yn rhoi cyngor lle mae angen gwelliannau i annog rheolaeth ariannol gryfach ar draws pob gwasanaeth. I ychwanegu mwy o werth, lle bo hynny'n berthnasol, bydd yr Archwiliad Mewnol yn nodi arbedion posibl yn ystod eu gwaith. Bydd y Prif Archwilydd Mewnol yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter.				
Amcanion Llesiant / Camau		**Ddim yn berthnasol**				
Thema Gorfforaethol		**Ddim yn berthnasol**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Ymgymryd â gwaith archwilio yn unol â'r Cynllun Archwilio Mewnol y cytunwyd arno	Mae digon o waith archwilio'n cael ei wneud i roi sicrwydd priodol ar effeithiolrwydd llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol. O ganlyniad i Covid 19 ni chyflawnir Cynllun Archwilio llawn 2020/21. Byddwn yn gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaeth i flaenoriaethu llwyth gwaith archwilio er mwyn rhoi sicrwydd priodol mewn meysydd allweddol.	Na	Prif Archwilydd Mewnol	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021
2	Adolygu ac adrodd ar faint o'r camau rheoli y cytunwyd arnynt sydd wedi'u gweithredu o fewn gwasanaethau er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth, rheoli a llywodraethiant.	Mae gwasanaethau yn gweithredu camau rheoli y cytunwyd arnynt o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt i wella darpariaeth gwasanaeth, rheoli a llywodraethiant. Lle na fydd camau wedi'u cwblhau, caiff y rhain eu dwysáu yn unol â hynny.	Na	Prif Archwilydd Mewnol	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021

Amcan 1	**Archwilio Mewnol i roi sicrwydd ynghylch digonolrwydd systemau Llywodraethiant, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac i leihau twyll a llygredd o fewn yr Awdurdod.**
Canlyniad(au) Amcan	Mae Archwilio Mewnol yn ofyniad statudol o fewn llywodraeth leol yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014; bydd y tîm yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Bydd gwaith archwilio'n cael ei wneud i asesu digonolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fewnol, llywodraethiant a rheoli risg, er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol a bod twyll / camgymeriad yn cael ei leihau ym mhob gwasanaeth. Bydd hyn yn galluogi'r Prif Archwilydd Mewnol i roi barn gyffredinol flynyddol. Bydd y tîm Archwilio Mewnol yn effro i unrhyw weithgarwch twyllodrus posibl a bydd yn rhoi gwybod i'r Prif Archwilydd Mewnol am unrhyw bryderon a fydd yn asesu'r sefyllfa o ran risg a phenderfynu a ddylid ymchwilio ymhellach ai peidio. Bydd y tîm Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau'n gweithio'n dda ac yn rhoi cyngor lle mae angen gwelliannau i annog rheolaeth ariannol gryfach ar draws pob gwasanaeth. I ychwanegu mwy o werth, lle bo hynny'n berthnasol, bydd yr Archwiliad Mewnol yn nodi arbedion posibl yn ystod eu gwaith. Bydd y Prif Archwilydd Mewnol yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter.
Amcanion Llesiant / Camau	**Ddim yn berthnasol**
Thema Gorfforaethol	**Ddim yn berthnasol**

Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
3	Cydgysylltu'r adolygiad ar gyfatebion data a ddychwelwyd gan y Fenter Twyll Cenedlaethol (MTC/NFI). Ymateb ac yna ymchwilio i honiadau o dwyll / llygredd	Lle nodwyd achosion o dwyll a llygredd, ymchwilir i'r rhain yn drylwyr a chymryd camau priodol.	Na	Prif Archwilydd Mewnol	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021
4	Codi ymwybyddiaeth o Bolisi Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd y Cyngor.	Mae Aelodau a Swyddogion yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau lle mae twyll a llygredd yn digwydd yn y Cyngor.	Na	Prif Archwilydd Mewnol	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021

Amcan 2		**Bydd y tîm Casglu Incwm yn cynyddu'r opsiynau sydd ar gael i gwsmeriaid gynnal trafodion yn ddigidol.**				
Canlyniad(au) Amcan		Darparu'r modd i gwsmeriaid gynnal trafodion rheolaidd yn ddigidol. Galluogi dinasyddion i gael gafael ar eu cofnodion treth gyngor a chyflawni trafodion rheolaidd yn ddigidol a fydd yn gwella effeithlonrwydd, yn lleihau costau ac yn lleihau cyswllt diangen. Bydd hefyd yn caniatáu i'r Tîm Refeniw ganolbwyntio mwy ar adennill dyledion a peidio gorfod delio â materion trafodol lefel isel.				
Amcanion / Camau Llesiant		**Ddim yn berthnasol**				
Thema Gorfforaethol		**Cyngor Modern**				
Rhif Cam Gweithredu	**Cam gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Cynllun prosiect a chyflawni'r prosiect.	Byddwn wedi darparu system a fydd yn galluogi trigolion a busnesau i gynnal trafodion yn ddigidol ac i fod â swyddogaeth hunan-wasanaeth. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn gwella effeithlonrwydd trafodion refeniw ac yn rhoi mwy o opsiynau i ddefnyddwyr fonitro a thalu eu biliau.	Na	Rheolwr Casglu Incwm	1 Rhagfyr 2019	5 Mehefin 2020
2	Mae'r cyfleuster i gynnal trafodion yn ddigidol wedi'i osod a'i brofi ac mae'n gweithio. Mae'r cam nesaf yn golygu ymwreiddio'r cyfleuster ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd fel rhan o 'wasanaethau fy nghyngor' i gynnig profiad di-dor i'r cwsmer.	Mae trafodion digidol bellach yn gweithio ac ar gael, ac maent yn aros i bartner meddalwedd gwasanaeth gwe'r Cyngor er mwyn eu hintegreiddio i brif wefan y cyngor. Mae'r agwedd hon ar y prosiect wedi'i gohirio yn sgil covid ac am nad yw personél allweddol ar gael.	Na	Rheolwr Casglu Incwm	1 Mawrth 2020	31 Hydref
3	Ymgyrch gyhoeddusrwydd i hysbysu trigolion am wasanaethau ar-lein ac annog pobl i'w defnyddio. Yn dilyn lansiad meddal cychwynnol i'r gwasanaethau ar-lein, bydd ymgyrch	Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau ar-lein ac annog preswylwyr i gynnal eu trafodion yn ddigidol ar gyfer trafodion rheolaidd y dreth gyngor.	Nod Adfer Strategol 1	Rheolwr Casglu Incwm	1 Tachwedd 2020	31 Mawrth 2021

Amcan 2		**Bydd y tîm Casglu Incwm yn cynyddu'r opsiynau sydd ar gael i gwsmeriaid gynnal trafodion yn ddigidol.**				
Canlyniad(au) Amcan		Darparu'r modd i gwsmeriaid gynnal trafodion rheolaidd yn ddigidol. Galluogi dinasyddion i gael gafael ar eu cofnodion treth gyngor a chyflawni trafodion rheolaidd yn ddigidol a fydd yn gwella effeithlonrwydd, yn lleihau costau ac yn lleihau cyswllt diangen. Bydd hefyd yn caniatáu i'r Tîm Refeniw ganolbwyntio mwy ar adennill dyledion a peidio gorfod delio â materion trafodol lefel isel.				
Amcanion / Camau Llesiant		**Ddim yn berthnasol**				
Thema Gorfforaethol		**Cyngor Modern**				
Rhif Cam Gweithredu	**Cam gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
	gydgysylltiedig yn cael ei chynnal. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol, gwefan y cyngor a thaflenni sydd wedi'u cynnwys gyda gohebiaeth treth gyngor fel biliau ac ati.					

Amcan 3		**Byddwn yn cefnogi'r sefydliad drwy ddatblygu arferion rheolaeth ariannol dda gan gynnwys:** **1. Amcanestyniadau ariannol tymor canolig cadarn i sicrhau bod blaenoriaethau allweddol yn cael cyllid a bod y sefydliad yn deall ei her ariannol. Byddwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau effeithlonrwydd a newid.** **2. Galluogi rheolwyr cyllideb i reoli cyllid yn gadarn drwy systemau, prosesau a phartneru busnes effeithiol.**				
Canlyniad(au) Amcan		Mae'r Cyngor angen barn tymor canolig gadarn ynghylch ei sefyllfa ariannol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni blaenoriaethau a bod cynlluniau priodol yn cael eu datblygu i sicrhau cyllideb gytbwys dros y tymor canolig sy'n rai cadarn. Gellir cefnogi hyn gyda systemau a phrosesau ariannol effeithiol a hawdd eu defnyddio.				
Amcanion / Camau Llesiant		**Ddim yn berthnasol**				
Thema Gorfforaethol		**Cyngor Modern**				
Rhif Cam Gweithredu	**Cam gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r cam gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau'r Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Parhau i wella prosesau o ran trafodion a wneir gan y Tîm Cyfrifyddiaeth Ganolog.	Prosesau safonol ac awtomataidd pellach gan y tîm cyfrifyddiaeth canolog gan gynnwys cysylltu'r gweithlu â'r system Adnoddau Dynol newydd.	Na	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021
2	Sicrhau bod systemau cyllid ysgolion yn cyd-fynd â systemau cyllid y Cyngor gan gynnwys BMS.	Bydd hyn yn caniatáu arferion gwaith mwy effeithlon ac yn osgoi dyblygu gwaith a wneir gan reolwyr busnes ysgolion a thîm cyllid ysgolion yr adran gyfrifyddiaeth.	Na	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol	1 Ebrill 2020	31 Gorffennaf 2020
3	Uwchraddio'r system ariannol sy'n cynnwys integreiddio systemau eraill, gan gynnwys y prif gyfriflyfr, caffael, dyledwyr a chofrestr asedau.	- System ariannol ar lwyfan mwy cynaliadwy, ar y Cwmwl os oes modd - Arferion gwaith mwy effeithlon oherwydd llai o amser segur a chyflymder prosesu - Llawer mwy o gymorth a pharhad busnes - Y gallu i gael mynediad i systemau ar lwyfannau lluosog fel ffonau symudol a thabledi h.y. i awdurdodi archebion wrth fynd.	Na	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol	1 Ebrill 2020	1 Ebrill 2022
4	Cyfarfod â Phenaethiaid Gwasanaeth i gytuno ar yr effaith ar y gwasanaethau unigol ar effaith eu hymateb a'u hadferiad i effaith Covid-19, ochr yn ochr â'r rhagolygon "busnes fel arfer" i'w cynnwys o fewn monitro.	- Rhoi rhagolwg dibynadwy ac amserol i'r Cabinet ar y sefyllfa sy'n wynebu'r awdurdod. - Deall pa fesurau sydd ar waith i liniaru effaith a gweithrediad y mesurau hynny.	Na	Pennaeth Cyllid	1 Ebrill 2020	31 Rhagfyr 2020

5	Cynnal gweithdy cyfalaf gydag Uwch Swyddogion i ail-broffilio cyllidebau cyfalaf yng ngoleuni llithriant y flwyddyn flaenorol, a deall y galwadau ar y rhaglen gyfalaf ac effaith hirdymor y rhain ar y Rhaglen Gyfalaf.	- Gwneud penderfyniadau ar ddyfodol y rhaglen gyfalaf a'i heffaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gan ystyried fforddiadwyedd a chynaliadwyedd hirdymor y rhaglen.	Na	Prif Gyfrifydd	1 Awst 2020	30 Medi 2020

Amcan 4	**Er mwyn cau cyfrifon yn gynharach ac fel man lleiaf, bodloni terfynau amser a gofynion statudol**					
Canlyniad(au) Amcan	Ar gyfer cyfrifon y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 bydd angen archwilio a chyhoeddi cyfrifon ariannol yr Awdurdod 2 fis yn gynharach na'r dyddiad cau presennol. Mae hon yn her sylweddol i'r adran gyfrifyddiaeth. Amserlenni fel a ganlyn: • Ar gyfer cyfrifon blwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020 bydd y dyddiad cau ar gyfer cyfrifon drafft yn symud o 30 Mehefin 2019/20 i 15 Mehefin 2019 a'r dyddiad cau ar gyfer cyfrifon terfynol o 30 Medi i 15 Medi. Ar gyfer y flwyddyn gyfrifon a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021, y dyddiad cau ar gyfer cyfrifon drafft fydd 30 Mehefin 2021 a'r dyddiad cau ar gyfer cyfrifon terfynol fydd 31 Gorffennaf 2021.					
Amcanion / Camau Llesiant	**Ddim yn berthnasol**					
Thema Gorfforaethol	**Ddim yn berthnasol**					
Rhif Cam Gweithredu	**Cam gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Her barhaus prosesau ac amserlenni sy'n bodoli eisoes. Mae angen 'cefnogaeth' gan uwch reolwyr a gwasanaethau. Diweddarwyd yr amserlen gyda phrosesau wedi'u cwblhau o fewn amserlenni byrrach gyda rhai tasgau diwedd blwyddyn yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn.	Galluogi gwasanaethau ac uwch reolwyr i ddod yn fwy effeithlon ac effeithiol gyda'u rhagolygon misol. Bydd hyn hefyd yn galluogi'r timau Cyllid i ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad mwy arbenigol i feysydd risg uchel y Cyngor drwy gydol y flwyddyn.	Na	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol	1 Ebrill 2019	30 Gorffennaf 2021
2	Gweithio ochr yn ochr â Swyddfa Archwilio Cymru i asesu pa feysydd gwaith y gall cyfrifyddiaeth eu cwblhau yn gynnar yn y flwyddyn ac y gellir eu harchwilio cyn y cam drafft.	Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu swyddogaeth sicrwydd i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ddarparu gwerth am arian i'w ddinasyddion. Mae canfyddiadau SAC yn galluogi gwelliant parhaus i reolaethau mewnol, llywodraethiant a rheolaeth risg y Cyngor ar ei gyllid.	Na	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol	1 Ebrill 2019	30 Gorffennaf 2021

Amcan 5		**Gweithredu a sefydlu'r model gweithredu diwygiedig ar gyfer caffael strategol. Ceisio gwelliannau yn y broses gylchol P2P lawn.**				
Canlyniad(au) Amcan		Gweithredu a sefydlu'r model gweithredu diwygiedig ar gyfer Caffael Strategol. Gan ystyried y lefelau adnoddau o fewn y swyddogaeth, nodi canlyniadau allweddol a ffrydiau gwaith y mae angen eu cwblhau er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Contract Cyhoeddus, polisi Llywodraeth Cymru sy'n ychwanegu gwerth, yn sicrhau manteision ariannol/anariannol lle bynnag y bo modd i'r Cyngor. Gwella'r broses o dalu anfonebau â llaw ymhellach drwy geisio methodolegau talu amgen i wella'r broses – drwy ddatrysiadau cardiau caffael ac unrhyw opsiynau talu hyfyw eraill.				
Amcanion / Camau Llesiant		**Ddim yn berthnasol**				
Thema Gorfforaethol		**Dinas Ffyniannus a Chyngor Modern**				
Rhif Cam Gweithredu	**Cam gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Daw'r Strategaeth Gaffael bresennol i ben yn 2019, strategaeth newydd i gael ei hysgrifennu.	Caiff Strategaeth Gaffael newydd ei chymeradwyo a'i mabwysiadu gan y Cyngor. Bydd mabwysiadu'r Strategaeth Gaffael newydd yn cyd-fynd â'r Ddeddf Llesiant ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn annog caffael mwy lleol a chynaliadwy. Bydd hyn yn cefnogi economi leol y Ddinas drwy dwf busnes a chyfleoedd cyflogaeth.	Nod Adfer Strategol 2	Rheolwr Caffael Strategol	1 Tachwedd 2019	30 Medi 2020
2	Gweithredu a sefydlu'r model gweithredu diwygiedig ar gyfer caffael strategol. Cyflawni elfennau strategol a gweithredol gwerth ychwanegol caffael. Dylai'r rhain gynnwys: • Rôl Bwrdd y Porth Caffael ar ôl penodi Prif Swyddog Gweithredol newydd • Casglu a defnyddio 'dadansoddiad gwariant'	Mae cyflawni'r camau gweithredu hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn cadw at ei Reolau Sefydlog Contractau, Rheoliadau Ariannol a'r gofynion deddfwriaethol angenrheidiol. Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau caffael yn cael eu rheoli'n effeithiol ar lefel gywir y sefydliad a'u bod yn gallu dangos gwerth am arian i ddinasyddion.	Dd/B	Rheolwr Caffael Strategol	1 Ebrill 2019	31 Mawrth 2021

Amcan 5		**Gweithredu a sefydlu'r model gweithredu diwygiedig ar gyfer caffael strategol. Ceisio gwelliannau yn y broses gylchol P2P lawn.**				
Canlyniad(au) Amcan		Gweithredu a sefydlu'r model gweithredu diwygiedig ar gyfer Caffael Strategol. Gan ystyried y lefelau adnoddau o fewn y swyddogaeth, nodi canlyniadau allweddol a ffrydiau gwaith y mae angen eu cwblhau er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Contract Cyhoeddus, polisi Llywodraeth Cymru sy'n ychwanegu gwerth, yn sicrhau manteision ariannol/anariannol lle bynnag y bo modd i'r Cyngor. Gwella'r broses o dalu anfonebau â llaw ymhellach drwy geisio methodolegau talu amgen i wella'r broses – drwy ddatrysiadau cardiau caffael ac unrhyw opsiynau talu hyfyw eraill.				
Amcanion / Camau Llesiant		**Ddim yn berthnasol**				
Thema Gorfforaethol		**Dinas Ffyniannus a Chyngor Modern**				
Rhif Cam Gweithredu	**Cam gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
	blynyddol i nodi cyfleoedd i adolygu e.e. gwariant oddi ar gontract ac ati. • Os yw adnoddau'n caniatáu cynnal adolygiadau o wariant i nodi cyfleoedd i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl a / neu gyflawni arbedion • Cyfleoedd hunan-wasanaeth ar gyfer gweithredu cystadleuol gwerth is					

Amcan 6	**Ymgorffori egwyddorion Caffael Teg a Lleol a Chadwyni Cyflenwi Moesegol i Broses y Porth Caffael**					
Canlyniad(au) Amcan	Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi nodi sawl ffordd o wella caffael cyhoeddus er mwyn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig o ran cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi, a defnyddio caffael i hyrwyddo twf cynhwysol. Mae hyn yn cefnogi dau nod allweddol sef Cymru Ffyniannus a Chymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang. Yn ogystal, o ganlyniad i'r pandemig Covid, mae gofynion newydd gan Lywodraeth Cymru hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod ei gyflenwyr 'mewn perygl' allweddol yn cael eu cefnogi lle y bo'n briodol yn ariannol ac yn weithredol yn yr economi leol a rhanbarthol. Bydd hyn hefyd yn cefnogi unrhyw effeithiau ychwanegol o drafodaethau Masnach Brexit.					
Amcanion / Camau Llesiant	**Amcanion Llesiant 1,2 a 3**					
Thema Gorfforaethol	**Dinas Ffyniannus, Cymunedau Gwydn, Cyngor Modern**					
Rhif Cam Gweithredu	**Cam gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r cam gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Adolygu dogfennau caffael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â themâu Cenedlaethau'r Dyfodol newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.	Mae tendrau CDC yn cyfrannu at lesiant gweithwyr y gadwyn gyflenwi.	Dd/B	Rheolwr Caffael Strategol	1 Ebrill 2020	31 Mawrth 2021
2	Sicrhau bod rheolwyr a swyddogion ar draws y Cyngor yn gyfarwydd â Swyddogion Cymorth Cymunedol newydd sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i neilltuo cyfleoedd contract i fusnesau lleol.	Rhoddir mwy o gyfle i fusnesau lleol gyflenwi'r Cyngor a chyfrannu at adeiladu cyfoeth lleol a thwf economaidd.	Nod Adfer Strategol 1 Nod Adfer Strategol 2 Nod Adfer Strategol 3	Rheolwr Caffael Strategol	1 Ebrill 2020	30 Mehefin 2020
3	Cefnogi Gwasanaethau wrth gyflawni gofynion PPN/02 a PPN/04	Sicrhau bod ein cyflenwyr 'mewn perygl' allweddol yn cael eu cefnogi, lle y bo'n briodol yn ariannol ac yn weithredol er mwyn i'r cyflenwyr hyn oroesi canlyniadau COVID19, a bod yn barod i ailddechrau darparu gwasanaethau unwaith y bydd y cyfnod adfer ar waith.	Nod Adfer Strategol 2 Nod Adfer Strategol 3	Rheolwr Caffael Strategol	1 Ebrill 2020	31 Rhagfyr 2020

Amcan 7		**Mewn cydweithrediad â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, nodi aelwydydd sy'n agored i niwed yn ariannol a'u cyfeirio at bartneriaid arbenigol i ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad ariannol.**				
Canlyniad(au) Amcan		Byddwn yn nodi'r aelwydydd hynny sydd ag ôl-ddyledion Treth Gyngor a cheisio eu cyfeirio at gymorth arbenigol a fydd yn rhoi cyngor, arweiniad a mesurau i'w helpu i leihau eu hôl-ddyledion treth gyngor a dyledion eraill yr aelwyd. Bydd hyn yn galluogi aelwydydd sy'n agored i niwed i reoli eu harian yn well a sicrhau cydnerthedd hirdymor a darparu cyfleoedd llesiant ac economaidd.				
Amcanion /Camau Llesiant		**Amcanion Llesiant 2, 3 a 4**				
Thema Gorfforaethol		**Cymunedau Cryf**				
Rhif Cam Gweithredu	**Cam gweithredu**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r cam gweithredu yn Cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Coladu Data i'w gyflwyno i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.	Cynnal ymarferiad cynhwysfawr ar gasglu a glanhau data.	Nod Adfer Strategol 4	Rheolwr Incwm a Chasglu	1 Hydref 2020	31 Hydref 2020
2	Cyflwyno data i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Cyflwyno data yn y fformat cywir	Nod Adfer Strategol 4	Rheolwr Incwm a Chasglu	1 Hydref 2020	31 Rhagfyr 2020
3	Data a ddychwelwyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi gyda gwybodaeth wedi'i diweddaru.	Nodi aelwydydd sy'n agored i niwed yn ariannol a chynnig cymorth gan bartneriaid arbenigol. Cynnig llwybr i aelwydydd mewn dyled i ddatrys a'u cefnogi i gynnal taliadau.	Nod Adfer Strategol 4	Rheolwr Incwm a Chasglu	1 Rhagfyr 2020	31 Mawrth 2022

Amcan 8	**Gweinyddu a Thalu Grantiau Ardrethi Busnes Covid-19 Cymwys**
Canlyniad(au) Amcan	Nodi busnesau sy'n gymwys i gael cymorth ariannol o dan gynllun grantiau cymorth ardrethi busnes covid-19 Llywodraeth Cymru. Ar ôl eu nodi, sefydlu mecanwaith i fusnesau wneud cais am daliad a chael taliad cyn gynted ac mor effeithlon â phosibl
Pa Nod(au) Adfer Strategol y mae'r amcan hwn yn ei gefnogi?	Nodau Adfer Strategol 1 a 2
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?	Hyrwyddo twf ac adfywiad economaidd ac i adeiladu cymunedau cydlynus a chynaliadwy
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?	**Dinas Ffyniannus a Chymunedau Cadarn**

Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Creu proses ymgeisio syml i fusnesau wneud cais am grant ardrethi busnes.	Sicrhau y gall busnesau wneud cais hawdd am y grantiau sydd ar gael, tra'n sicrhau bod y broses yn ddigon cadarn i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i ddilysu hawl i grant o dan delerau'r cynllun	Nod Adfer Strategol 1 Nod Adfer Strategol 2	Rheolwr Incwm a Chasglu	20 Mawrth 2020	1 Ebrill 2020
2	Talu grantiau yn uniongyrchol i fusnesau cymwys.	Creu mecanwaith diogel ar gyfer talu drwy BACS er mwyn galluogi busnesau i dderbyn yr arian cyn gynted â phosibl. Mae angen i'r mecanwaith talu gael y taliad draw i fusnesau tra'n bodloni meini prawf atal twyll cytûn hefyd er mwyn lleihau'r posibilrwydd o hawliadau twyllodrus.	Nod Adfer Strategol 1 Nod Adfer Strategol 2	Rheolwr Incwm a Chasglu	28 Mawrth 2020	7 Awst 2020
3	Cynnal ymarfer gyda Llywodraeth Cymru i gasglu gwybodaeth am gymorth gan y wladwriaeth ar gyfer pob ymgeisydd.	Ymarfer untro i'w gynnal i gasglu gwybodaeth a choladu gwybodaeth i fformat y cytunwyd arni gan bob busnes er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau cymorth gan y wladwriaeth.	Nod Adfer Strategol 1 Nod Adfer Strategol 2	Rheolwr Incwm a Chasglu	1 Awst 2020	30 Medi 2020

Amcan 9		**Gweithredu a Gweinyddu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2020-21**				
Canlyniad(au) Amcan		Er mwyn cynorthwyo busnesau sy'n gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch y mae'r pandemig covid-19 yn effeithio arnynt a'r cloi yn ei sgil, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi newydd sy'n dileu'r gofyniad i fusnesau cymwys dalu ardrethi yn 2020-21.				
Pa Nod(au) Adfer Strategol y mae'r amcan hwn yn ei gefnogi?		Nodau Adfer Strategol 1 a 2				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		Hyrwyddo twf ac adfywiad economaidd ac i adeiladu cymunedau cydlynus a chynaliadwy				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Dinas Ffyniannus a Chymunedau Cadarn**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Nodi'r busnesau yn y ddinas sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso.	Darparu amcangyfrifon cywir o gymhwyswyr posibl fel y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y lefel gywir o gyllid ar gael i'r Cyngor.	Nod Adfer Strategol 1 Nod Adfer Strategol 2	Rheolwr Incwm a Chasglu	20 Mawrth 2020	1 Ebrill 2020
2	Sicrhau bod y system TGCh ardrethi busnes yn cael ei diweddaru gyda meddalwedd newydd, wedi'i phrofi ac yn gwbl weithredol i hwyluso'r cynllun newydd.	Cyhoeddi biliau ardrethi busnes diwygiedig yn cadarnhau bod rhyddhad ardrethi llawn wedi'i ddyfarnu ar gyfer 2020-21. Camau i'w cwblhau cyn 5 Ebrill pan fydd debyd uniongyrchol cyntaf y flwyddyn yn cael ei gasglu.	Nod Adfer Strategol 1 Nod Adfer Strategol 2	Rheolwr Incwm a Chasglu	28 Mawrth 2020	2 Ebrill 2020
3	Cadw cofnodion cywir a sicrhau bod y cysoniad terfynol yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru.	Cysoniad terfynol i sicrhau bod y Cyngor yn cael ei ad-dalu am gost lawn y cynllun.	Nod Adfer Strategol 1 Nod Adfer Strategol 2	Rheolwr Incwm a Chasglu	1 Ebrill 2020	5 Ebrill 2021

Amcan 10		**Sefydlu Protocolau Adfer Dyledion Ôl-Covid-19**				
Canlyniad(au) Amcan		Ailddechrau casglu ôl-ddyledion a sefydlu protocol adennill dyledion sy'n cydnabod ac yn cynorthwyo unigolion a busnesau lleol wrth iddynt ymdrechu i ddychwelyd i'r arfer ar ôl y pandemig a'r clo cenedlaethol.				
Pa Nod(au) Adfer Strategol y mae'r amcan hwn yn ei gefnogi?		Nodau Adfer Strategol 1 a 2				
Pa Amcan(ion) Llesiant y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		Hyrwyddo twf ac adfywiad economaidd ac i adeiladu cymunedau cydlynus a chynaliadwy				
Pa Thema(au) Corfforaethol y mae'r amcan hwn yn ei/u g/cefnogi?		**Dinas Ffyniannus a Chymunedau Cadarn**				
Rhif Cam Gweithredu	**Disgrifiad o'r Cam Gweithredu:**	**Canlyniad(au) y Cam Gweithredu**	**A yw'r Cam Gweithredu yn cefnogi'r Nod(au) Adfer Strategol?**	**Cyfrifoldeb am y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Dechrau y Cam Gweithredu**	**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig**
1	Recriwtio i lenwi swyddi gwag presennol o fewn yr Adran Incwm a Chasglu.	Staff newydd yn cael eu recriwtio.	Nod Adfer Strategol 1 Nod Adfer Strategol 2	Rheolwr Incwm a Chasglu	1 Awst 2020	30 Medi 2020
2	Nodi personél allweddol sy'n gyfrifol am adennill dyledion.	Staff i'w neilltuo i lwyth achosion adfer penodol.	Nod Adfer Strategol 1 Nod Adfer Strategol 2	Rheolwr Incwm a Chasglu	1 Awst 2020	31 Mawrth 2021
3	Gweithio gydag asiantaethau partner a'r trydydd sector i roi cyngor a chymorth i'r rhai sydd â dyledion a phroblemau ariannol.	Cynnal cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gyda sefydliadau partner fel Cyngor ar Bopeth i sefydlu dull cydgysylltiedig o gynorthwyo'r rhai sydd ag ôl-ddyledion i ddod o hyd i ffordd gydymdeimladol a chynaliadwy o gasglu'r ddyled.	Nod Adfer Strategol 1 Nod Adfer Strategol 2	Rheolwr Incwm a Chasglu	1 Medi 2020	1 Mawrth 2021

Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cyllid 2020/21

Mesur Perfformiad	Gwybodaeth Genedlaethol / Lleol / Rheoli	Amcan y Cynllun Gwasanaeth (CG)	Gwirioneddol 2018/19	Targed 2018/19	Targed 2019/20	Targed 2020/21
Canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd	Lleol	Amcan 1	83%	82%	82%	41%
Canran y camau rheoli y cytunwyd arnynt - a weithredwyd o fewn 6 mis i dderbyn yr Adroddiad Archwilio Mewnol terfynol.	Lleol	Amcan 1		90%	90%	90%
Canran yr archwiliadau a ddechreuwyd	Gwybodaeth Reoli	Amcan 1	88%	82%	82%	41%
Canran yr adroddiadau drafft a gyhoeddwyd	Gwybodaeth Reoli	Amcan 1	83%	Dd/B	Dd/B	41%
Canran yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd	Gwybodaeth Reoli	Amcan 1	48%	Dd/B	Dd/B	25%
Nifer y diwrnodau i gyhoeddi adroddiad drafft	Gwybodaeth Reoli	Amcan 1	11	10 diwrnod	10 diwrnod	10 diwrnod
Nifer y diwrnodau i gyhoeddi adroddiad terfynol	Gwybodaeth Reoli	Amcan 1	3	5 diwrnod	5 diwrnod	5 diwrnod
Amser y codir tâl uniongyrchol yn erbyn cynhyrchiant cynlluniedig	Gwybodaeth Reoli	Amcan 1	89%	Dd/B	Dd/B	50%
Canran Ardrethi Annomestig a Gasglwyd	Cenedlaethol	Amcan 2	97.07%	97%	97%	95%
Canran Casglu'r Dreth Gyngor	Cenedlaethol	Amcan 2	96.64%	97%	97%	95%
Canran cyfanswm y Dreth Gyngor a Gasglwyd fel canran o'r swm blynyddol a gyllidebwyd.	Lleol	Amcan 2	101.35%	100%	100%	100%
Cynyddu cyfrifon y Dreth Gyngor a delir trwy Ddebyd Uniongyrchol	Lleol	Amcan 2	60%	74%	75%	76%
% trafodion y Dreth Gyngor a'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (taliadau a thasgau gweinyddol sylfaenol) a gwblhawyd ar-lein.	Lleol	Amcan 2	dd/b	dd/b	dd/b	5%
Canran ôl-ddyledion y Dreth Gyngor a gasglwyd	Gwybodaeth Reoli	Amcan 2	155.28%	40%	40%	40%
Canran yr ôl-ddyledion Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a gasglwyd	Gwybodaeth Reoli	Amcan 2	52.42%	40%	40%	40%
Canran yr Anfonebau a Dalwyd o fewn yr amserlenni	Lleol	Amcan 5	88.9%	90%	90%	90%
Cyfanswm gwerth y gwariant drwy'r cerdyn caffael	Lleol	Amcan 5	Dd/B	Dd/B	£1.825m	£2.625m

Geirfa

Cenedlaethol – Casglwyd ac adroddwyd i sefydliad allanol fel Llywodraeth Cymru / Estyn / CLlLC ac ati i feincnodi / cymharu

Lleol – wedi'i gasglu a'i adrodd yn benodol gan CDC / Gwasanaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcan.

Gwybodaeth Reoli – Casglwyd ac adroddwyd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gweithgaredd a/neu wasanaeth penodol.

Risgiau Presennol y Gwasanaeth 2020/21

Enw'r Risg	Disgrifiad o'r Risg	Perchennog y Risg	Risg Gorfforaethol / Risg Gwasanaeth	Risg sy'n gysylltiedig ag Amcan Llesiant	Risg sy'n gysylltiedig â Thema Gorfforaethol?	Risg sy'n gysylltiedig ag Amcan y Gwasanaeth?	Sgôr Risg Gynhenid (0-25)	Sgôr Risg Targed (0-25)
Cydbwyso Cyllideb Tymor Canolig y Cyngor	Bodloni gofyniad y Cyngor i leihau'r bwlch rhwng gwariant y Cyngor a dyranniad cyllideb dros amserlen y 3-5 mlynedd nesaf Mae'r her yn sylweddol dros y tymor canolig ond mae'r Cyngor hyd yma wedi llwyddo i gynhyrchu cyllidebau blynyddol cytbwys sef y gofyniad sylfaenol elfennol	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol	Risg Gorfforaethol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	**16**	**10**
Staffio Cyllid (Recriwtio a Chydnerthedd)	Mae gan Gyllid broblemau hanesyddol yn recriwtio ar gyfer swyddi allweddol yn y gwasanaeth a hefyd i sicrhau bod digon o arbenigedd cyflenwi / technegol ar gyfer rolau allweddol.	Pennaeth Cyllid	Risg Gwasanaeth	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	**12**	**6**
Methiant systemau TGCh allweddol (Oracle / Treth Gyngor / Ardrethi Annomestig Cenedlaethol)	Methiant systemau allweddol (Oracle / Treth Gyngor / Ardrethi Annomestig Cenedlaethol) fyddai â goblygiadau sylweddol iawn o ran darparu gwasanaethau ac o ran effeithiau sefydliadol.	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol	Risg Gwasanaeth	Ddim yn berthnasol	Cyngor Modern	Ddim yn berthnasol	**16**	**5**
TGCh – Hunan Wasanaeth o fewn meysydd Treth Gyngor / Ardrethi Annomestig Cenedlaethol	Nid yw hunan-wasanaeth o fewn meysydd Treth Gyngor / Ardrethi Annomestig Cenedlaethol yn datblygu oherwydd diffyg capasiti TG.	Rheolwr Casglu Incwm	Risg Gwasanaeth	Ddim yn berthnasol	Cyngor Modern	Amcan 2. Cynyddu'r opsiynau Trafodion Digidol Casglu Incwm.	**12**	**6**
Goblygiadau Rheolaeth Ariannol / Covid 19 yn ystod y flwyddyn	Mae'r risg hon yn gysylltiedig â rheolaeth ariannol y flwyddyn o ragolygon gwariant yn erbyn cyllideb y Cyngor. Oherwydd Covid 19, mae effaith ariannol	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol	Risg Gorfforaethol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	**20**	**6**

Enw'r Risg	Disgrifiad o'r Risg	Perchennog y Risg	Risg Gorfforaethol / Risg Gwasanaeth	Risg sy'n gysylltiedig ag Amcan Llesiant	Risg sy'n gysylltiedig â Thema Gorfforaethol?	Risg sy'n gysylltiedig ag Amcan y Gwasanaeth?	Sgôr Risg Gynhenid (0-25)	Sgôr Risg Targed (0-25)
	sylweddol ar y Cyngor oherwydd costau uwch i gefnogi'r adferiad, colli incwm ac oedi wrth gyflawni yn erbyn arbedion a nodwyd. Pecyn cymorth ariannol Llywodraeth Cymru nad yw'n hysbys yn fanwl eto ond mae'n darparu rhywfaint o liniaru a thebygolrwydd is.							
Caffael – Risg o Fethu â Chydymffurfio	Risg o gaffael nad yw'n cydymffurfio ddigwydd y tu allan i'r gwasanaeth corfforaethol.	Rheolwr Caffael Strategol	Risg Gwasanaeth	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Amcan 5. Adolygu model gweithredu ar gyfer caffael strategol.	**12**	**5**
(Newydd) Lleihad Incwm Ôl-Covid-19	Mae'r pandemig covid-19 a'r cloi yn ei sgil wedi effeithio'n andwyol ar gasglu Dyledion y Dreth Gyngor, Ardrethi Busnes a Dyledion Amrywiol. Mae perygl y bydd ailddechrau adennill dyledion arferol yn dod yn rhy hwyr yn y flwyddyn i sicrhau y gyflawnir y casglu incwm arferol yn 2020-21.	Pennaeth Cyllid	Risg Gorfforaethol	Na	Oes nodau strategol 1 a 2	Amcan 10. sefydlu protocol adfer dyledion ôl-cofid (amcan newydd)	**20**	**9**

Matrics Risg 5x5



Risg Cynhenid	Mae hyn yn seiliedig ar y sgôr risg gychwynnol a roddwyd yn absenoldeb unrhyw reolaethau.
Risg Targed	Dyma lefel y risg y mae'r Cyngor, y gwasanaeth, y rhaglen / prosiect yn barod i'w goddef wrth adlewyrchu Archwaeth Risg gyffredinol y Cyngor (Gweler y Polisi Rheoli Risg).